# Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-08-10**

## CA402 : Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010

### Gweithdrefn : Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn nodi'r amgylchiadau lle gall cyflogwyr

("personau cyfrifol") ganiatáu i unigolion ymgymryd â gwaith yng Nghymru sy'n weithgarwch rheoledig fel y diffinnir yn adrannau 21a 22 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ("y Ddeddf"), ac nad oedd yr unigolyn eisoes yn ei wneud i'r cyflogwr hwnnw pan ddaeth y Rheoliadau hyn i rym. Bydd yn rhaid i'r cyflogwr naill ai fod yn fodlon nad yw'r unigolyn ar restr o rai sydd wedi'u gwahardd, nac ar restr sy'n ôl-ddyddio'r Ddeddf tra'i fod yn aros i gael ei drosglwyddo i un o'r rhestrau o rai sydd wedi'u gwahardd, neu fod wedi gweld tystysgrif cofnod troseddol fanylach ("Datgeliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol") neu hysbysiad nad yw'r unigolyn ar restr o'r fath a gyhoeddwyd o fewn y 90 diwrnod blaenorol.

### Gwaith craffu technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn

### Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn.

Mae Rheoliadau 2 a 3 yn cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn dyroddi hysbysiad o dan Adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn datgan nad yw person wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant a/neu oedolion hyglwyf, yn hytrach na thystysgrif cofnod troseddol fanylach.

Ar hyn o bryd nid yw Adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn darparu'r pŵer ar gyfer dyroddi hysbysiad o'r fath gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig ac Darpariaethau Amrywiol) 2010 wedi eu gosod gerbron y Senedd ar eu ffurf ddrafft, i'w cymeradwyo gan y ddau dy. Mae'r Rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr yn gwneud darpariaeth debyg i'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru, ac yn ychwanegol at hynny, maent yn diwygio Adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 er mwyn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi hysbysiad yn hytrach na thystysgrif cofnod troseddol fanylach.

Mae'r memorandwm esboniadol yn cadarnhau y bwriedir i'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru ddod i rym ar 1 Ebrill 2010, ar yr un pryd â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr.

Pe bai unrhyw oedi o ran y Rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr yn dod i rym, byddai'n rhaid oedi gyda'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru yn yr un modd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Chwefror 2010**